

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Elizabeth Jones (Llansannan) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, gan weddio y bydd yn cryfhau ac yn adnabod daioni Duw yn ei hamgylchynu. Cofiw'n hefyd am Bob Davies (Llanfair) sydd bellach yn ôl yng nghartref Coed Isaf ond sydd wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Cofiw'n amdano yntau yn ein gweddiâu gan hyderu y caiff adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drosto. Mae sawl un arall wedi cael gwahanol driniaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn – cofiw'n amdanynt hwythau hefyd. Cyflwynwn hwy, a'u teuluoedd hefyd, i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y sicrwydd ei fod yn gwrandao'n gweddiâu, ac am addewid o'i ffyddlondeb.
- Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Llinos ac Aled Roberts (Llansannan) ar enedigaeth eu mab – Dewi Aled. Gweddiwn drostynt fel teulu, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

I ddod

- **OEDFA I DDATHLU CANMLWYDDIANT CAPEL COFFA HENRY REES** yn Llansannan nos Lun, Tachwedd 3ydd am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH CEFN BERAIN** yng nghwmni y Parch. Tecwyn Ifan nos Iau, Tachwedd 6ed am 7.00. Paned i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Trefnant dydd Mercher, Tachwedd 12fed o 10.00 – 3.00.
- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca – Tachwedd 14eg-16eg. Bydd rhaglen amrywiol yn cynnwys cyfle i gyfarfod Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parch. Neil Kirkham; cyflwyniad i'r rhaglen CAMU gan Meleri Cray; cyfle i weld yr arddangosfa newydd o greiriau'r Cyfundeb yng nghwmni Rhidian Griffiths, a bydd Jenny Garrard yn trafod sut y gall eglwysi a gofalaethau ddechrau darparu gweinidogaeth o'u plith eu hunain. Rhoddir sylw hefyd i'r Llawlyfr Blaenoriaid diwygiedig a chynhelir astudiaeth Feiblaidd ac oedfa ar y bore Sul. Mae croeso i flaenoriaid hen a newydd i ddod i drafod, cymdeithasu, addoli a dysgu. Cost y penwythnos fydd £85. Mwy o fanylion gan Reolydd Coleg Trefeca: 01874 711423 / colegtrefeca@ebcpcw.org.uk.
- **BYW A DWEUD – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill** gyda Graham Daniels, Cyfarwyddwr *Christians in Sport* yn Eglwys Crist, Y Bala dydd Sadwrn, Tachwedd 29ain. £19 fydd cost y diwrnod gan gynnwys cinio yng Ngholeg y Bala, neu £13 os byddai'n well gennyh ddod â'ch pecyn bwyd eich hun. Os am ffurflen archebu, ewch i wefan www.souledoutcymru.net neu cysylltwch â Mair.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26^{ain} Hydref 2014

Darlleniad y Dydd

Hosea 14:4-9

(BCND tud.826 / BCN: tud.752)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso eto i oedfaon y dydd ac i'r diwrnod newydd yma o ras ein Harglwydd. Gobeithio y cewch fendith arbennig heddiw wrth wrando'r Gair a chydaddoli. Wrth i'r wythnos agor o'n blaenau, gweddiwn y bydd Duw yn rasol wrthym ac y bydd yn rhoi cyfleon newydd i ni rannu ein tystiolaeth am Iesu a'i ogoniant hefo'n ffrindiau, ein teulu a phawb a fydd yn holi amdano.

Un o'r pethau wnaeth y Parch. John Robinson sôn amdano hefo ni nos Fercher oedd fod yn rhaid i'r newyddion da am Iesu fod yn newyddion da i ni i ddechrau cyn y medrwn ei rannu ag eraill, ac wrth inni rannu ag eraill rydym ninnau'n tyfu yn ein ffydd a'n argyhoeddiad. Roedd John yn ein harwain yn feistrolgar iawn trwy'r comisiwn mawr a gawsom fel Cristnogion i fynd allan i fod yn dystion i Iesu. (Actau 1:8 hefyd.) Soniodd am ei brofiad ei hun yn cael ei alw i Rwmania ac yna i Gymru ac fel y mae wedi gweld newid yn agwedd pobl ifanc Cymru at Grist – yr holi gwirioneddol sy'n digwydd rwan a'r ymateb cadarnhaol i Iesu sy'n digwydd ym mywydau sawl un. Pwysleisiodd ein cyfrifoldeb i fynd allan i gyfarfod pobl lle y maent.

Diolch a chlod i Dduw am hynny a pharhawn i weddio am i'r Ysbryd symud mewn nerth yn ein plith i'n gwneud yn dystion ffyddlon, er mwyn i eraill ddod yn rhan o deulu Duw ac yn dystion eu hunain hefyd. Nid galw pobl at gapel arbennig neu enwad yw ein nod – cyflwyno Iesu yw'r gwaith a gawsom, a gwneud hynny trwy amrywiol ffyrdd.

Disgrifiodd chwech agwedd ymarferol a fydd o fudd i ni i'w trafod a'u gweithredu hefo'n gilydd. Hwyrach y medrwn eu cynnwys yn eu trefn dros yr wythnosau nesaf. Ar ben y rhestr roedd **gweddi**. Ond gweddi benodol dros bobl neilltuol iddynt ddod i adnabod Iesu yw'r weddi hon. Fe fydd gan bob Cristion enwau pobl arbennig y byddant yn gweddiâu'n gyffredinol trostynt a thros eu lles. Yn ogystal â gofyn i Dduw ofalu am y bobl yma dylem hefyd ofyn yn daer i Dduw ddod â nhw i adnabod Iesu yn bersonol. Iesu yn ei berson yw'r newyddion da a Iesu yn ei berson rhyfeddol yr ydym yn ei rannu. Adnabod Iesu yw'r bywyd tragwyddol. Pwy yw'r bobl y mae Duw yn eu rhoi ar ein calon wrth i ni weddio? Gweddiwn ar iddynt dderbyn Ysbryd Duw i ddyfnhau eu hadnabyddiaeth o Iesu er mwyn iddynt gael nerth yr Ysbryd Glân hefyd i ddod yn dystion i Iesu eu hunain! Fe fydd geiriau Hosea yn y darlleniad heddiw yn dod yn wir wrth i hyn ddiwydd!

Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 84 (BCND tud.539 / BCN: tud.492)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Tegid, Y Bala. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. Meirion Morris yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 1.15, ac am 2.00 cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch i'r teulu yng nghwmni Steffan Morris. Bydd cyfle hefyd i roi blodau i'r cartrefi preswyl lleol ac i roi rhoddion tuag at y Banc Bwyd.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Oedfa Ddiolchgarwch Undebol Llansannan** yng Nghapel Bethania am 7.30 gyda'r Parch. Rhys Llwyd yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Gwener Cynhelir Noson Agoriadol Cymdeithas Peniel yng Nghlwb Golff, Dinbych. Yn dilyn y swper, ceir sgwrs gan y Parch. W. H. Pritchard.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch Nantglyn a Tanyfron yng Nghapel y Waen, Nantglyn am 2.00. Pregethir gan y Parch. Gerwyn Roberts, Llanrwst.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Iau Cynhelir Clwb Cinio Cefn Berain am 12.00 (*sylwer ar y newid dyddiad*). Croeso i aelodau newydd!
- Sul nesaf Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd, a'r oedolion am 11.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.